## Balchder Bro Porth y Gogledd Abertawe - Pecyn Recriwtio Aelodau'r Bwrdd

### Helpwch i Lunio Dyfodol Porth y Gogledd Abertawe

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno â Bwrdd Cymdogaeth Balchder Bro Porth y Gogledd Abertawe.
Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i bobl leol lunio dyfodol Porth y Gogledd Abertawe a dylanwadu ar sut mae hyd at £20 miliwn o fuddsoddiad yn cael ei ddefnyddio dros y deng mlynedd nesaf.

Rydym yn chwilio am bobl leol y mae Porth y Gogledd Abertawe yn bwysig iawn iddynt ac sydd eisiau gweithio ochr yn ochr ag eraill i greu newid cadarnhaol a pharhaol.

Nid oes angen profiad blaenorol o wasanaethu ar Fwrdd arnoch er mwyn gwneud cais.

*Yr hyn sydd bwysicaf yw eich angerdd dros yr ardal, eich parodrwydd i weithio gydag eraill, a'ch awydd i wneud gwahaniaeth.*

---

### Beth yw Balchder Bro?

Rhaglen Llywodraeth y DU yw Balchder Bro sydd wedi'i chynllunio i roi pobl leol wrth wraidd gwneud penderfyniadau.

Mae Porth y Gogledd Abertawe wedi cael ei ddewis i dderbyn hyd at £20 miliwn dros ddeng mlynedd i'w fuddsoddi mewn blaenoriaethau lleol a nodwyd gan y gymuned.

Nod y rhaglen yw:

- Adeiladu cymunedau cryfach
- Creu lleoedd ffyniannus
- Grymuso pobl leol i gymryd mwy o reolaeth dros ddyfodol eu cymdogaeth

Mae'r rhaglen yn un hirdymor, dan arweiniad y gymuned ac yn canolbwyntio ar greu newid cynaliadwy sy'n para ymhell y tu hwnt i'r cyfnod ariannu deng mlynedd.

Mae ardal Porth y Gogledd Abertawe yn cynnwys cymunedau megis Y Stryd Fawr, Dyfaty, Yr Hafod, Brynmelyn, Waun Wen a chymdogaethau cyfagos.

BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PORTH Y GOGLEDD ABERTAWE

## Ynglŷn â'r Bwrdd Cymdogaeth

Bydd y Bwrdd Cymdogaeth yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer y rhaglen.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cydweithio i:

- Datblygu gweledigaeth ddeng mlynedd ar y cyd ar gyfer Porth y Gogledd Abertawe
- Datblygu cynllun buddsoddi pedair blynedd i'w gyflwyno i'r Llywodraeth
- Cynnal gwrando ac ymgysylltu yn y gymuned
- Nodi blaenoriaethau a chyfleoedd
- Hyrwyddo'r ardal
- Goruchwylio cyflawni prosiectau a gweithgareddau y cytunwyd arnynt
- Sicrhau bod lleisiau lleol yn parhau i fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau

Bydd y Bwrdd yn canolbwyntio ar weithredu. Ni fydd aelodau'r bwrdd yn mynychu cyfarfodydd yn unig. Byddant yn cyfrannu, yn ymgysylltu, yn hyrwyddo ac yn helpu i yrru newid cadarnhaol yn weithredol ar draws yr ardal.

## Am bwy yr ydym yn chwilio?

Rydym am i'r Bwrdd adlewyrchu amrywiaeth, cryfderau a phrofiadau Porth y Gogledd Abertawe.

Efallai eich bod yn:

- Preswylydd
- Perchennog busnes
- Gwirfoddolwr
- Arweinydd cymunedol
- Rhiant neu ofalwr
- Person ifanc
- Person â phrofiad bywyd
- Ymgyrchydd lleol
- Arweinydd ffydd
- Cynrychiolydd o addysg, iechyd neu'r sector gwirfoddol
- Artist, ymarferydd creadigol neu ddiwylliannol
- Rhywun sy'n angerddol am eich cymdogaeth

BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PORTH Y GOGLEDD ABERTAWE

Mae croeso i bawb wneud cais. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o wasanaethu ar Fwrdd.

## Am beth yr ydym ni'n chwilio mewn Aelodau'r Bwrdd?

Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu dangos:

- Angerdd dros Borth y Gogledd Abertawe a'i ddyfodol
- Ymrwymiad i newid cadarnhaol
- Dealltwriaeth o faterion, cyfleoedd a chryfderau lleol
- Y gallu i wrando ar wahanol leisiau a'u cynrychioli
- Parodrwydd i weithio ar y cyd
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth
- Awydd i droi syniadau yn weithredu

Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig gan bobl y mae eu lleisiau'n aml yn cael eu tangynrychioli.

## Ymrwymiad Amser

Disgwylir i'r Bwrdd gyfarfod yn ffurfiol tua unwaith y mis yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae'n debygol y bydd cyfarfodydd yn digwydd yn hwyr yn y prynhawn neu'n gynnar gyda'r nos.

Disgwylir i aelodau'r bwrdd hefyd:

- Darllen papurau cyn cyfarfodydd
- Cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu cymunedol
- Cefnogi digwyddiadau a sgyrsiau yn y gymdogaeth
- Helpu i ddatblygu prosiectau a syniadau rhwng cyfarfodydd

Yr ymrwymiad amcangyfrifedig yw tua phedair i wyth awr y mis.
Rôl wirfoddol ddi-dâl yw hon.

Bydd treuliau rhesymol a threfniadau cymorth yn cael eu hystyried i helpu i gael gwared ar rwystrau i gyfranogiad.

## Rhwydwaith Gwneuthurwyr Newid Porth y Gogledd Abertawe

Rydym yn disgwyl y bydd mwy o bobl â diddordeb mewn cymryd rhan nag sydd o leoedd ar gael ar y Bwrdd.

Rydym eisoes wedi derbyn diddordeb gan fwy na deugain o bobl, sefydliadau a hyrwyddwyr cymunedol lleol yn yr wythnos gyntaf ers penodi'r cadeirydd cyn agor ceisiadau'n ffurfiol. Mae hyn yn hynod galonogol ac yn dangos y balchder, yr angerdd a'r potensial sydd eisoes yn bodoli ar draws Borth y Gogledd Abertawe.

Os na chewch eich penodi i'r Bwrdd Cymdogaeth, rydym yn eich annog yn frwd i barhau i gymryd rhan drwy Rwydwaith Gwneuthurwyr Newid ehangach Porth y Gogledd Abertawe. Bydd angen arweinwyr a hyrwyddwyr gwneud newid ar hynny hefyd.

Bydd llwyddiant Porth y Gogledd Abertawe yn dibynnu ar lawer o bobl yn cydweithio. Bydd cyfleoedd i wirfoddoli, arwain gweithgareddau, dod yn Hyrwyddwr Gwneud Newid, ymuno â gweithgorau, cefnogi digwyddiadau a chyfrannu syniadau drwy gydol oes y rhaglen.

BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PORTH Y GOGLEDD ABERTAWE

## Y Broses Recriwtio

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **12pm (hanner dydd) ddydd Iau 16 Gorffennaf 2026**.

Bydd y Cadeirydd Annibynnol yn ystyried ceisiadau ochr yn ochr ag aelodau cychwynnol y Bwrdd Cymdogaeth, gan gynnwys Torsten Bell AS, Arweinydd Cyngor Abertawe Rob Stewart, a chynrychiolydd o blith cynghorwyr lleol. Bydd y broses hefyd yn cael ei chefnogi gan Gyngor Abertawe fel y Corff Atebol a, lle bo'n briodol, gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i sgwrs anffurfiol ar neu o gwmpas **ddydd Gwener 24 Gorffennaf 2026** yng **Ngofod Cymunedol Cyffordd Dyfaty**.

Bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i slot amser penodol am sgwrs hamddenol o 20 i 30 munud. Bydd cyfleusterau ar gael pe bai unrhyw un am rannu cyflwyniad byr, delweddau neu ddeunyddiau eraill.

Bydd y fformat tebygol yn cynnwys:

- Tua 10 munud i chi gyflwyno'ch hun a rhannu eich stori
- Tua 10 munud o gwestiynau a sgwrs

Byddem wrth ein bodd yn clywed:

- Pam mae Porth y Gogledd Abertawe yn bwysig i chi?
- Pam hoffech chi ymuno â'r Bwrdd?
- Beth yw'r un peth yr hoffech chi ei weld yn newid neu'n gwella?

Bydd penodiadau terfynol yn ceisio sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth, daearyddiaeth, profiad, sgiliau a chryfderau Porth y Gogledd Abertawe.

BALCHDER BRO
CHI SY'N ARWAIN – GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH Y DU

PORTH Y GOGLEDD ABERTAWE

## Sut i wneud Cais

Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb ac atebwch y tri chwestiwn canlynol:

1. Dywedwch wrthym amdanoch chi'ch hun a'ch cysylltiad â Phorth y Gogledd Abertawe.
2. Pam hoffech chi ymuno â Bwrdd Cymdogaeth Porth y Gogledd Abertawe?
3. Pa sgiliau, profiad, safbwyntiau neu brofiad bywyd fyddech chi'n eu cynnig i'r Bwrdd?

Gellir cyflwyno ceisiadau yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Cais ysgrifenedig
- Cais fideo hyd at 5 munud
- Cais nodyn llais hyd at 5 munud
- Sgwrs â chymorth

Dylid anfon ceisiadau i:
hello@northgateswanseapip.co.uk
**Dyddiad cau: 16eg Gorffennaf 12pm hanner dydd**

---

## Rhagor o Wybodaeth

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl neu os oes angen cymorth arnoch i lenwi eich cais, cysylltwch â:
hello@northgateswanseapip.co.uk
www.northgateswanseapip.co.uk

Gyda'n gilydd gallwn ddathlu ein lle ac adeiladu dyfodol uchelgeisiol i Borth y Gogledd Abertawe.

---